Archwilio a chymeradwyo
CARAFANAU UNIGOL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhoddir yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn gyda phob ewyllys da a gwnaed pob ymdrech i sicrhau ei bod yn gywir. Ni all Croeso Cymru dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wall na chamddehongli. Caiff pob atebolrwydd am golled, siomedigaeth, esgeulustod neu ddifrod arall a achosir gan ddibyniaeth ar yr wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn ei eithrio drwy hyn.

OGL
WG31964
© Hawlfraint y Goron 2017

Meini Prawf ar gyfer Carafanau Unigol

Yn berthnasol i llety gosod a ddarperir mewn carafanau sefydlog, h.y.

- Carafanau unigol wedi'u lleoli ar fferm neu wrth ymyl cartref preifat
- Carafanau preifat wedi'u lleoli mewn meysydd carafanau wedi'u graddio** gan Croeso Cymru

Bydd y llety yn addas at y diben, yn lân, yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda ac yn bodloni pob rhwymedigaeth statudol perthnasol.

Gofynion Mynediad
• Mae'n rhaid bodloni pob rhwymedigaeth a gofyniad statudol ar gyfer gosod, sydd mewn grym ar hyn o bryd. (Os bydd angen ac os gofynnir amdano, bydd angen darparu cadarnhad o ganiatâd cynllunio/newid defnydd darn penodol o dir).
• Mae'n rhaid disgrifio'r llety a'r cyfleusterau a gynigir yn deg.
• Mae'n rhaid paratoi datganiad mynediad i bobl anabl.
• Mae'n rhaid meddu ar yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus cyfredol.
• Mae'n rhaid i bob cyfranogwr ddilyn Cod Ymddygiad Croeso Cymru.
• Mae'n rhaid i unedau fod o wneuthuriad masnachol.
• Ni ddylai mwy o bobl aros yn y garafán nag a bennir gan y gwneuthurwr.
• Mae'n rhaid darparu'r holl wasanaethau prif gyflenwad (draeniad, dŵr, trydan a nwy {naill ai o'r prif gyflenwad neu mewn potel}).
• Mae'n rhaid cynnal profion nwy a thrydan ar offer a darparu tystysgrifau llwyddo pan fo'n briodol.
• Darparu gwresogi digonol.
• Goleuo mewnol diogel.
• Pan fydd y derbyniad yn caniatáu, teledu lliw i'w ddarparu yn yr uned.
• Ystafell ymolchi fewnol yn cynnwys toiled, basn ymolchi a chawod neu fath.
• Darparu dŵr poeth ac oer.
• Popty gyda ffwrn, gril ac o leiaf tri phentan coginio.
• Darparu oergell gyda blwch rhew.
• Sinc, peipen wastraff, bwrdd diferu ac arwynebau gwaith yn lân ac yn ddiogel.
• Rhestr gynnwys y garafán a osodir wedi'i harddangos (gweler isod am restr o offer gofynnol).
• Ardal storio ar gyfer bwyd a bagiau.
• Y tu mewn mewn cyflwr da gyda waliau, nenfwd, arwynebeddau llawr a phob dodrefn yn lân ac yn ddiogel.
• Ffenestri a ffenestri to yn gweithio (agor a chau).
• Pob ffenestr â gorchudd anrhyloyw neu gysgodlenni.
• Matresi yn lân ac yn ddiogel ac wedi'u gosod ag amddiffynyddion digonol.

• Pan ddarperir dillad gwely, dylai fod rhai ychwanegol ar gael.
• Mae'n rhaid i'r tu allan i'r garafán fod wedi'i gynnal a'i gadw yn dda ac mewn cyflwr diogel ac wedi'i gosod ar lefel ddiogel.
• Dylid cynnal a chadw llwybrau a meysydd parcio yn dda a sicrhau eu bod yn ddiogel rhag peryglon baglu.
• Angen grisiau ar gyfer pob drws, a ddylai fod yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
• Mae'n rhaid cynnal asesiad risg tân a gweithredu ar ganfyddiadau i leihau neu ddileu risg, ac yna adolygu'r asesiad yn rheolaidd gan wneud newidiadau pan fo angen.
• Mae'n rhaid darparu Larwm Mwg a chanfodydd Carbon Monocsid.
• Darparu diffoddwyr tân a blancedi tân priodol (rhaid i bob offer fod yn gymeradwy o ran BS/CE).
• Mae'n rhaid darparu manylion ynglŷn â sut i alw am gymorth, yn ystod y dydd neu'r nos, mewn argyfwng a'u harddangos yn glir i westeion (e.e., perchennog, meddyg, deintydd, gwasanaethau brys (h.y., 999) ynghyd â'r ffôn agosaf. Darparu pecyn cymorth cyntaf ym mhob uned neu ar safle.

** Mae'n rhaid i radd Croeso Cymru y parc dan sylw fod yn gyfredol a dilys. Os yw hyn wedi mynd yn annilys neu wedi cael ei ddileu gan Croeso Cymru, yna ni all Croeso Cymru archwilio'r garafán breifat ar y parc.

DS. Pan fydd y cartref gwyliau sy'n garafán wedi'i leoli ar faes carafanau wedi'i raddio gan Croeso Cymru, mae'n rhaid i berchennog y garafán breifat gael caniatâd ysgrifenedig perchennog y parc i osod y garafán yn annibynnol ar y parc. Efallai gofynnir am dystiolaeth o hyn gan Croeso Cymru ar adeg yr asesiad.

Offer gofynnol er mwyn cyrraedd y safon

Un fesul carafán

Bin (anfflamadwy)
Cynhwysydd bara/cacen
Plât bara/cacen
Bwrdd bara/malu
Cyllell fara
Dysgl menyn
Ysgubell
Bwced
Cyllell a fforc cerfio
Dysgl gaserol
Colandr
Set pupur a halen
Tynnwr corcyn/agorydd potel
Ysgubwr carpedi neu sugnydd llwch (ar gael)
Cyfryngau glanhau (sebon golchi llestri ac ati)
Mat drws
Padell lwch a brwsh
Tafell bysgod
Padell ffrio
Dysgl ffrwythau
Gratiwr
Jwg (mesur)
Jwg (llaeth)
Tegell
Bin cegin â chaead
Siswrn cegin
Lletwad
Drych
Powlen/basn gymysgu
Hambwrdd pobi ffwrn
Pliciwr tatws
Sgwriwr potiau/mop llestri
Sosbenni a chaeadau (bach, canolig a mawr)
Llwy
Powlen siwgwr
Tepot
Agorydd tuniau
Hambwrdd
Cyllell lysiau (miniog)
Powlen golchi llestri

Dau fesul carafán

Blwch llwch (lle caniateir ysmygu)
Dwster
Llwy de

Fesul person

Powlen grawnfwyd
Cwpan ŵy
2 x Fforc
2 x Gyllell
Mwg
Plât (bach a mawr)
Llwy (pwdin a the)
Tymbler a gwydr gwin

Ystafell wely

3 x blanced neu 1 dwfe fesul gwely
1 x clustog fesul person
4 x cambren dillad fesul person

Ystafell ymolchi

Brwsh toiled a daliwr
Rholyn toiled a daliwr

Hyrwyddo'r Math Hwn o Lety

Unwaith y bydd Croeso Cymru wedi cynnal archwiliad a'i fod wedi profi bod yr holl feini prawf perthnasol wedi'u bodloni, byddwch yn cael, maes o law, copi o adroddiad yr Aseswr a thystysgrif i'w harddangos. Bydd hawl gennych i ddisgrifio'r llety fel "Llety a Gymeradwywyd gan Croeso Cymru". Ni ddylid hyrwyddo'r llety drwy ddefnyddio unrhyw eiriau eraill, a dylai gynnwys yr holl eiriau uchod. Cyflenwir y logo a'r geiriau perthnasol i chi gennym, fel gwaith celf electronig, er mwyn i chi allu eu rhoi ar eich deunydd darllen hyrwyddol a/neu wefan os dymunwch. Os ydych yn hysbysebu yn unrhyw un o'n canllawiau, y rheini a gynhyrchir gan eich Awdurdod lleol, neu unrhyw ganllaw arall dylid defnyddio "Llety a Gymeradwywyd gan Croeso Cymru' fel rhan o'ch hysbyseb.

Manylion Cyswllt

Os hoffech wneud cais am ymweliad ar gyfer gradd Seren neu drafod unrhyw fater perthnasol sy'n codi o gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â ni yn:

Yr Adran Sicrhau Ansawdd,
Croeso Cymru,
Llywodraeth Cymru,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
SY23 3UR.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar **0845 0108020** neu anfon ebost atom yn **quality.tourism@wales.gsi.gov.uk**.

Neu, gweler ein wefan: **https://businesswales.gov.wales/cy/zones/tourism**